OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2014 Rhif 2225 (Cy. 214)

2014 No. 2225 (W. 214)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2014

The Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) (Amendment) Regulations 2014

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013"), sy'n nodi'r gofynion hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r cyfeiriad at y ddogfen hyfforddi "Cynnwys hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru ar ddeall data ysgolion" yn Rheoliadau 2013.

Mae rheoliad 2 hefyd yn diwygio rheoliad 5 o Reoliadau 2013 drwy roi paragraff (1) newydd yn lle'r un presennol, sy'n amlinellu pa ran o'r hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion (naill ai Rhan 1 neu Ran 2) sy'n ofynnol gan lywodraethwyr ysgolion gan ddibynnu ar y math o ysgol.

Effaith y diwygiad hwn yw y bydd yn ofynnol i lywodraethwyr ysgolion arbennig cymunedol gwblhau hyfforddiant gwahanol i'r hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr ysgolion eraill a gynhelir.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) Regulations 2013 ("the 2013 Regulations"), which set out the training requirements for governors at maintained schools in Wales.

Regulation 2 makes an amendment to the reference to the training document "Content of training for school governors in Wales on understanding school data" in the 2013 Regulations.

Regulation 2 also amends regulation 5 of the 2013 Regulations by substituting a new paragraph (1) which outlines which part of the school performance data training (either Part 1 or Part 2) is required by school governors depending on the type of school.

The effect of this amendment is that governors for community special schools will be required to complete different training to governors of other maintained schools.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2014 Rhif 2225 (Cy. 214)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2014

Gwnaed	*20 Awst 2014*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*22 Awst 2014*
Yn dod i rym	*19 Medi 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau yn adrannau 19 a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac adrannau 22(3) a (4) a 32 o Fesur Addysg (Cymru) 2011(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2014 a deuant i rym ar 19 Medi 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "dogfen 2013" ("*the 2013 document*") yw'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o'r enw "Cynnwys hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru ar ddeall data ysgolion"(**3**).

(**1**) 2002 p. 32. Diwygiwyd adran 210(7) gan adran 21(1), (3)(c)(i) a (ii) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**2**) 2011 mccc 7.
(**3**) Rhif ISBN: 978-0-7504-9651-3.

2014 No. 2225 (W. 214)

EDUCATION, WALES

The Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) (Amendment) Regulations 2014

Made	*20 August 2014*
Laid before the National Assembly for Wales	*22 August 2014*
Coming into force	*19 September 2014*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers in sections 19 and 210 of the Education Act 2002(**1**) and sections 22(3) and (4) and 32 of the Education (Wales) Measure 2011(**2**), make the following Regulations.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) (Amendment) Regulations 2014 and they come into force on 19 September 2014.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) In these Regulations "the 2013 document" ("*dogfen 2013*") means the document published by the Welsh Ministers called "Content of training for school governors in Wales on understanding school data"(**3**).

(**1**) 2002 c. 32. Section 210(7) was amended by section 21(1), (3)(c)(i) and (ii) of the Learner Travel (Wales) Measure 2008 (nawm 2). The functions of the National Assembly for Wales under these sections were transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.
(**2**) 2011 nawm 7.
(**3**) ISBN no: 978-0-7504-9650-6.

Diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013

2.—(1) Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 yn y diffiniad o "yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion" ("*the school performance data training*") yn lle "mis Medi 2013 o'r enw "Cynnwys hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru ar ddeall data ysgolion"", rhodder "mis Awst 2014 o'r enw "Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru ar ddeall data ysgolion(**2**)"".

(3) Yn rheoliad 5 yn lle paragraff (1) rhodder—

"**5.**—(1) Pan fo llywodraethwr wedi ei benodi neu ei ethol i gorff llywodraethu ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, rhaid i'r llywodraethwr hwnnw, cyn pen blwyddyn ar ôl cael ei benodi neu ei ethol (p'un bynnag yw'r diweddaraf) ("cyfnod yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion"), gwblhau—

(a) Rhan 1 o'r hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion os yw'n llywodraethwr ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol, ysgol sefydledig neu ysgol feithrin a gynhelir; neu

(b) Rhan 2 o'r hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion os yw'n llywodraethwr ysgol arbennig gymunedol.

(1A) Pan fo llywodraethwr ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol, ysgol sefydledig neu ysgol feithrin a gynhelir sydd wedi cwblhau Rhan 1 o'r hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion yn unol â'r Rheoliadau yn dod yn llywodraethwr ysgol arbennig gymunedol, nid yw'n ofynnol i'r llywodraethwr hwnnw gwblhau Rhan 2 o'r hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion.

(1B) Pan fo llywodraethwr ysgol arbennig gymunedol sydd wedi cwblhau Rhan 2 o'r hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion yn unol â'r Rheoliadau yn dod yn llywodraethwr ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol, ysgol sefydledig neu ysgol feithrin a gynhelir, nid yw'n ofynnol i'r llywodraethwr hwnnw gwblhau Rhan 1 o'r hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion."

(**1**) O.S. 2013/2124 (Cy. 207).
(**2**) ISBN-978-1-4734-1569-0.

Amendment of the Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) Regulations 2013

2.—(1) The Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) Regulations 2013(**1**) are amended as follows.

(2) In regulation 2 in the definition of "the school performance data training" ("*yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion*") for "September 2013 and called "Content of training for school governors in Wales on understanding school data"", substitute "August 2014 and called "Training for school governors in Wales on understanding school data(**2**)"".

(3) In regulation 5 for paragraph (1) substitute—

"**5.**—(1) Where a governor is appointed or elected to a governing body after the coming into force of these Regulations, that governor must within one year of that appointment or election (whichever is the later) ("the school performance data training period") complete—

(a) Part 1 of the school performance data training if they are a governor of a community, or voluntary, or foundation school, or maintained nursery school; or

(b) Part 2 of the school performance data training if they are a governor of a community special school.

(1A) Where a governor of a community, or voluntary, or foundation school or maintained nursery school who has completed Part 1 of the school performance data training in accordance with the Regulations, becomes a governor of a community special school, that governor is not required to complete Part 2 of the school performance data training.

(1B) Where a governor of a community special school who has completed Part 2 of the school performance data training in accordance with the Regulations, becomes a governor of a community, or voluntary, or foundation school or maintained nursery school, that governor is not required to complete Part 1 of the school performance data training."

(**1**) S.I. 2013/2124 (W. 207).
(**2**) ISBN-978-1-4734-1568-3.

Darpariaeth arbed

3. Nid oes unrhyw beth yn y Rheoliadau hyn yn gymwys i lywodraethwr a gwblhaodd, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion fel a nodir yn nogfen 2013.

Savings provision

3. Nothing in these Regulations applies to a governor who, before the coming into force of these Regulations, completed the school performance data training as set out in the 2013 document.

Huw Lewis

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru
20 Awst 2014

Minister of Education and Skills, one of the Welsh Ministers
20 August 2014

© Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2014

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-10987-0

9 780348 109870

£4.25

W2048/08/14 ON